
Adroddiad DASH 2021: e-bandemig i gynllunio yn y



See all updates

Mae'r ail adroddiad arolwg Agweddau a Sgiliau Digidol a ar gyfer Treftadaeth (DASH) yn cynnig cipolwg unigryw ar sut mae defnydd sector treftadaeth y Deyrnas Unedig o ddigidol wedi esblygu yn ystod y pandemig.

Atodiad	Maint
PDF Gweld Digital Attitudes and Skills for Heritage (DASH) survey report 2021 as PDF(837.75 KB)	837.75 KB
PDF Gweld Adroddiad DASH 2021 – fersiwn Cymraeg as PDF(996.87 KB)	996.87 KB

Adroddiad DASH 2021

Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd ar 25 Ionawr 2022, yn dwyn ynghyd ymatebion **4,514 o unigolion o 323 o sefydliadau** . Cynhaliwyd yr arolwg o fis Medi i fis Tachwedd 2021.

Dadansoddodd adroddiad cyntaf DASH, a gyhoeddwyd ar 14 Hydref 2020, ymatebion 4,120 o unigolion o 281 o sefydliadau. Fe'i lansiwyd yn union fel yr aeth y Deyrnas Unedig i'w gyfnod clo cyntaf.

Mae canfyddiadau eleni yn gipolwg ar foment unigryw mewn amser, wrth i'r sector treftadaeth barhau i weithio ar-lein i ddelio â'r pandemig a'r cyfnodau clo.

Cynhaliwyd yr ymchwil gan Timmus Research Limited a'r Gynghrair Treftadaeth, sy'n darparu dadansoddiad manwl o'u data. Gallwch ddarllen yr adroddiad i'r chwith. **Cyhoeddir y fersiwn Gymraeg yn fuan**.

Dyfeisgarwch a phenderfynol

Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn disgrifio dull eu sefydliad o ymdrin â digidol fel "**dal i fyny â'r amseroedd**" (48%).

Mae'r ymchwil yn dangos bod sgiliau'r sector wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar arferion digidol "hanfodol busnes" – gan gynnwys gweithio ar-lein a chadw'r cyhoedd yn gysylltiedig â threftadaeth yn ystod y pandemig.

Dywedodd Pennaeth Polisi Digidol Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Josie Fraser: "Mae'r ymchwil yn dangos dyfeisgarwch a phenderfyniad sector a wnaeth y gorau o dechnoleg i barhau i weithio, cyfathrebu a chysylltu yn ystod cyfnod anodd iawn."

Magu hyder

Gyda newidiadau mawr y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd fwy o hyder digidol i lawer o'r rhai a holwyd.

Yn 2020, roedd 75% o'r staff, 67% o ymddiriedolwyr a 49% o wirfoddolwyr yn teimlo'n abl ac yn hyderus wrth ddefnyddio fideo-gynadledda. Yn 2021 roedd hyn wedi cynyddu i 80% o'r staff, 76% o ymddiriedolwyr a 57% o wirfoddolwyr.

Mae digidol bellach wedi'i wreiddio mewn arferion gwaith o ddydd i ddydd. Dywedodd un ymatebydd: "mae'r pandemig wedi rhoi digidol (cyfarfodydd fideo) wrth wraidd bywyd gwaith".

Meddwl y tu hwnt i nodau tymor byr

Mae'r awduron yn arsylwi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, fel yn 2020, yn canolbwyntio ar ddysgu sgiliau digidol newydd sydd eu hangen i ddatrys tasgau neu broblemau ar unwaith.

Mae sefydliadau wedi cynyddu eu cefnogaeth i staff wrth gaffael y sgiliau digidol angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau busnes craidd. Yn ddealladwy, mae llai o gynnydd wedi'i wneud ar strategaeth ddigidol ac arloesedd, tra bod sefydliadau wedi canolbwyntio ar symud eu gweithgareddau o ddydd i ddydd ar-lein.

> Mae angen inni gyflymu ein trawsnewid digidol.
>
> *Ymatebydd arolwg*

Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn dangos bod llawer yn anelu at feddwl mwy strategol. Yn arolwg 2020, gofynnodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr am fwy o hyfforddiant i wella ffyrdd digidol eu sefydliad o weithio. Y tro hwn, roedd ymatebwyr hefyd yn bwriadu adeiladu ar y sgiliau a'r hyfforddiant a ddatblygwyd yn ystod y pandemig drwy edrych ar ddull mwy strategol o ddefnyddio a mabwysiadu technoleg. Roedd hyn yn cynnwys diddordeb mewn gwella seilwaith a mwy o

amser ar gyfer gwaith ar gynlluniau digidol.

Dywedodd un: "Mae angen i ni gyflymu ein trawsnewid digidol."

Gwella sgiliau

Mae'r symudiad (i lawer o staff) i weithio gartref wedi dangos bod llawer yn colli sgiliau digidol mewn amgylcheddau wyneb yn wyneb neu'n anffurfiol: dywedodd 42% eu bod wedi dysgu drwy "gasglu sgiliau gan gydweithwyr" neu drwy "ddod â sgiliau o sefydliad blaenorol" (31%). Dywedodd un aelod o staff mewn sefydliad treftadaeth mawr: "Mae'n anodd iawn cael hyfforddiant effeithiol, yn enwedig gyda cholli gofod swyddfa gwaith corfforol a rennir ar ôl Covid."

> Mae ymchwil 2021 yn dangos cysylltiad cadarnhaol rhwng y cymorth rydym wedi'i ddarparu a datblygu sgiliau ar draws y sector.
>
> *Josie Fraser*

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn dangos y gellir darparu hyfforddiant digidol effeithiol ar-lein. Canfu'r ymchwil gysylltiad cadarnhaol rhwng menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth y Gronfa Treftadaeth ac enillion sgiliau. O ymatebwyr DASH 2021, **roedd 10% wedi defnyddio o leiaf un o bum adnoddau rhestredig Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth**. Nododd yr ymatebwyr hyn – ar draws yr holl rolau swyddi a sgiliau digidol a restrwyd – hyder digidol uwch o'u cymharu â phobl nad oedd wedi defnyddio unrhyw un o'r adnoddau hyn.


Ychwanegodd Josie Fraser: "Mae'n braf gweld bod y fenter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth wedi sicrhau cynnydd pendant mewn sgiliau ar draws y sector. Bydd ein prosiectau newydd yn 2022 yn parhau i helpu sefydliadau i feithrin eu sgiliau digidol a'u hyder i ymateb i'r heriau presennol a rhoi sylfeini cadarn ar waith ar gyfer y tymor hwy."

Edrych ymlaen at 2022

Bydd prosiectau Sgiliau Digidol newydd ar gyfer Treftadaeth yn helpu i ddatblygu modelau a gwasanaethau busnes digidol, yn adeiladu arweinyddiaeth ddigidol ac yn ysgogi grym gwirfoddolwyr digidol.

Byddwn hefyd yn darparu cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth ddigidol a rhwydweithio i uwch arweinwyr y sector, ac yn lansio canolfan ddysgu ar-lein newydd.

Dysgwch fwy am Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth.



efyd mewn ...

Minder Kaur Athwal, ymddiriedolwr yn y Digital Skills for Heritage Trust Network. Credyd: Sarah Hayes.





ewn treftadaeth cyntaf ledled y DU

Heritage Trust Network trustee Minder Kaur Athwal. Credit: Sarah Hayes

Prosiectau 'sy'n torri tir newydd' i hybu gwirfoddoli ac arweinyddiaeth ddigidol